# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# Y MELINYDD


Roedd pobl Cymru’r oesoedd canol yn bwyta bara ceirch, barlys a rhyg. Bara oedd un o fwydydd pwysicaf y cyfnod.

Efallai taw’r ffermwyr oedd wedi tyfu’r cnydau, ond roedd rhai i rywun droi’r grawn yn flawd.

Roedd melinwyr yr oesoedd canol yn gweithio mewn melinau grawn, a ddefnyddiwyd i falu gwenith, barlys a cheirch a’i droi’n flawd. Felly, roedd melinwyr yn bwysig iawn.

Gwaith y melinydd oedd derbyn y grawn o’r ffermwyr lleol, ei bwyso a’i falu’n flawd. Hefyd, roedd gofyn bod y melinydd yn cadw’r felin mewn cyflwr da.

Roedd y melinau’n cael eu gyrru gan y gwynt, gan ddŵr neu, o dro i dro, gan anifeiliaid. Y felin ddŵr oedd y felin fwyaf cyffredin yn yr oesoedd canol, melin a oedd yn defnyddio egni’r dŵr yn llifo i droi olwyn fawr; byddai’r olwyn hon yn troi yn darparu’r grym i droi’r meini melin a oedd yn malu’r grawn yn flawd.




https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Melin y canol oesoedd gydag olwyn ‘overshot’.png



Melin gwynt mewn llawysgrif darluniedig canoloesol, Llun diolch I British Library, Royal 10 E. IV, f.89

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Melin Ddŵr Ffwrnais, Sir Geredigion. Ffoto diolch  VisitWales



Tu fewn melin ŷd14eg ganrif Lyme Regis
Gan Zephyris - Own work, CC BY-SA 3.0,
https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=10771557

Roedd melin ddŵr yn adeilad mawr wedi'i hadeiladu o bren neu garreg.

Yn aml roedd wedi'i lleoli ger afon neu nant, a byddai'r dŵr yn cael ei gyfeirio drwy ffrwd fechan ac, fel arfer, lawr cwymp serth i sicrhau ei fod yn llifo'n gyflym i droi olwyn ddŵr y felin.

Mae dal un i'w gweld ar Fynydd Dinas, a gallwch weld un wrth ei gwaith yn Amgueddfa Sain Ffagan. Mae'r felin yn y darlun ym mhentref Ffwrnais, Ceredigion.

Dyma sut roedd melin ddŵr yn gweithio: roedd yr olwyn ddŵr yn troi siafft fawr syth a oedd yn ymestyn ar draws tŷ'r felin, ac arni roedd cocos gyrru a chogiau i droi'r meini malu. Roedd rhain mewn ystafell ar wahan.

Roedd meini'r felin wedi'u gwneud o garreg caled megis gwenithfaen neu galchfaen. Roedd y maen uchaf yn troi ar ben y faen isaf. Arllwyswyd y grawn mewn i dwmffat mawr, ac yna roedd y grawn yn cwympo rhwng y ddwy garreg. Fel bo'r maen uchaf yn troi roedd yn malu'r grawn i flawd, a oedd yna'n cwympo i fin neu sach.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd rhaid i'r melinydd sicrhau bod y bwlch rhwng y cerrig yn fanwl gywir, er mwyn sicrhau bod y blawd yn ddigon mân. I wneud hyn, roedd rhaid iddo symud y meini gan ddefnyddio lifer.

Roedd melinwyr yn gweithio'n galed, ac roedd rhaid iddynt wybod sut roedd y peirianwaith yn gweithio. Hefyd, roedd rhaid iddynt fod yn gallu symud y meini mawr, a chodi'r sachau trymion o rawn.

Byddai'r melinydd yn gweithio oriau hir, yn aml o'r wawr tan iddi nosi i gadw'r felin yn rhedeg yn llyfn, ac i dderbyn y grawn oddiwrth y ffermwyr, a oedd yn debygol o alw heibio ar unrhyw adeg.




Book of Trades (Ständebuch) Jopst Amman 1565
Yale Centre for British Art
https://www.engr.psu.edu/MTAH/articles/german_miller.htm

Y testun wedi'i addasu o:

https://medievalbritain.com/type/medieval-life/occupations/medieval-miller/
https://welshmills.org/listed-watermills-in-wales/
https://aprilmunday.wordpress.com/tag/medieval-miller/
https://www.mola.org.uk/discoveries/news/one-mill-ion-find-uncovering-medieval-mill-a428

MYSTERIOUS AFAN CUDD